

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG (CYS)	STANDING ADVISORY COUNCIL (SAC)
DYDD IAU, 8 HYDREF 2026 AM 2:00 O'R GLOCH	THURSDAY, 8 OCTOBER 2026 AT 2:00 PM
YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM	COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Shirley Cooke 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors

Non Dafydd, Aled M Jones, Gwilym O Jones, Dylan Rees, Keith Roberts, Arfon Wyn

Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations

Parch/Rev Neil Ridings (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales); Colette Owens (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church); Parch/Rev Deborah Stammers (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales); Dr Alun Thomas (Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg/ Union of Welsh Independents (sedd wag/vacant seat); Huw Owen (Yr Eglwys Bresbyteraidd/ Presbyterian Church of Wales); Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church (sedd wag/vacant seat); Islam (sedd wag/vacant seat); Tystion Jehova/Jehova Witness (sedd wag/vacant seat)

Athrawon/Teachers

Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern), Owain Roberts (Ysgol Cybi), Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen)

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol y CYS a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2026.

Matterion yn codi o'r cofnodion: -

Yr Uwch Reolwr, Sector Cynradd i: -

- ysgrifennu at CBAC i fynegi pryder y CYS nad yw'r adnoddau dysgu ar gael i sgolion yn gynt.
- ofyn i CBAC dynnu ei amcanion asesu oddi ar y wefan ar unwaith.
- rannu cwestiynau hunanwerthuso NAPfRVE gydag ysgolion.

3 **CYMDEITHAS CYSAGAUC** (Tudalennau 7 - 14)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2026 yng Nghonwy.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYS YNYS MÔN AR GYFER 2025/26** (Tudalennau 15 - 34)

I gyflwyno Adroddiad Blynyddol Drafft CYS Ynys Môn ar gyfer 2025/26 i'w gymeradwo, gan gynnwys unrhyw newidiadau.

5 **IDDEWIAETH A CHYD-DESTUN GOGLEDD CYMRU**

Cyflwyniad gan Dr Gareth Evans-Jones, Darlithydd Athroniaeth a Chrefydd, Ysgol Gelfyddydau a Dyniaethau, Prifysgol Bangor.

6 **MAES LLAFUR CYTUNEDIG 2027-32**

I ofyn i'r Awdurdol Lleol gynnull Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig i adolygu a chytuno ar y Maes Llafur Cytun at gyfer 2027-32.

7 **CYFANSODDIAD Y CYS**

I sicrhau bod cyfansoddiad CYS Môn yn adlewyrchu'r newidiadau diweddar i Addysg Grefyddol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

8 **GOHEBIAETH CBAC** (Tudalennau 35 - 36)

Gohebiaeth CYS Ynys Môn i CBAC ynglŷn â phryderon am adnoddau dwyieithog ar gyfer y TGAU newydd.

9 **UNRHYW FATERION PENODOL I'R CYS**

Materion i'r cyfarfod nesaf.

10 **CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf y CYS ar 18 Chwefror 2027.

This page is intentionally left blank

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG (CYS)

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2026

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)

Yr Awdurdod Addysg

Y Cynghorydd Gwilym O Jones, Dylan Rees, Keith Roberts

Yr Enwadau Crefyddol

Mrs Collette Owens (Yr Eglwys Gatholig)
Y Parchedig Neil Ridings (Yr Eglwys yng Nghymru)
Dr Alun Thomas (Undeb Annibynwyr Cymru)

Cynrychiolwyr Athrawon

Mrs Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch)

Cynrychiolydd Anghrefyddol

Sarah Lloyd (Dyneiddwyr y DU)

WRTH LAW:

Mr Owen T Davies (Uwch Reolwr, Sector Cynradd, Gwasanaeth Addysg) (Clerc i'r CYS)
Mr Rhys Williams (Arweinydd Strategol, Sector Cynradd, Addysg)
Mr Phil Lord (Ymgynghorydd Annibynnol Crefydd Gwerthoedd a Moeseg)
Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgorau)

HEFYD YN BRESENNOL:

Anna Silver (Swyddog Addysg, Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain)

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorydd Arfon Wyn (Is-gadeirydd)
Y Parchedig Deborah Stammers (Undeb Bedyddwyr Cymru)
Mrs Manon Morris-Williams (Ysgol Santes Dwynwen)
Mr Owain Roberts (Ysgol Cybi)
Mr Rheinallt Thomas (Aelod Cyfetholedig)
Y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig Dr Alun Thomas a oedd yn mynychu am y tro cyntaf. Dr Alun Thomas yw cynrychioli newydd Undeb Annibynwyr Cymru ar y CYS.

1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y CYS a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2026 a chadarnhawyd eu bod yn gywir, yn amodol ar y canlynol: -

Materion yn codi o'r cofnodion: -

- Adroddodd y Cadeirydd ei bod wedi siarad â Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ynglŷn â phenodi aelod etholedig i'r sedd wag ar y CYS. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi cadarnhau y bydd aelodaeth y gwahanol bwyllgorau'n cael ei adolygu yn dilyn yr is-etholiad ym Mro'r Llynnoedd y mis hwn.
- Cadarnhaodd Clerc y CYS bod hyfforddiant HMS wedi cael ei gynnal, a bod rhagor o sesiynau ar y gweill.
- Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd CGM ei fod wedi anfon Canllawiau i ysgolion a darparu llythyr enghreifftiol i Benaethiaid ar hawl rhieni i dynnu eu plant o wersi CGM.
- Adroddodd yr Ymgynghorydd CGM mai Anna Silver o Fwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain ac nid Nathan Abrams fydd yn rhoi'r cyflwyniad ar Ddysgu Iddewiaeth yn y cyfarfod heddiw.

3. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU (CCYSAGauC)

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod CCYSAGauC a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 19 Mawrth 2026 er gwybodaeth yn unig.

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd CGM at Eitem 9 yn y cofnodion, sy'n trafod y pryderon a godwyd yn gysylltiedig â'r cwrs TGAU oherwydd y llwyth gwaith i athrawon, y disgwyliadau ar ddygwyr ac Asesiadau Di-arholiad. Adroddodd ei fod wedi ysgrifennu at Cymwysterau yng Nghymru a CBAC yn mynegi pryderon Penaethiaid Adrannau CGM ar yr Ynys ynglŷn ag addasrwydd y cwrs. Ymateb CBAC oedd caniatáu i athrawon gyflwyno themâu yn hwyr er mwyn rhoi mwy o amser iddynt baratoi ar gyfer yr Asesiadau Di-arholiad. Amlygwyd bod y dyddiad cau i ysgolion ar gyfer cyflwyno eu Hasesiadau Di-arholiad i CBAC wedi cael ei ymestyn chwe wythnos hyd at ddiwedd mis Ebrill neu ddechrau mis Mai. Adroddodd yr Ymgynghorydd CGM bod Cymwysterau yng Nghymru yn ymwybodol bod CCYSAGauC yn awyddus i gael cymhwyser yng Nghymru sy'n cwrdd â'r gofynion statudol.

Dywedodd yr athrawes uwchradd sy'n aelod o'r CYS ei bod wedi cwrdd â dau gynrychiolydd o CBAC yn ddiweddar, a'i bod wedi gofyn am eu barn ar y cwrs TGAU newydd. Amlygodd y pwyntiau a ganlyn yn sgil y cyfarfod hwnnw:-

- Mae'r cwrs TGAU yn drwm iawn. Unwaith y mae'r Asesiadau Di-arholiad wedi cael eu cwblhau ym mlwyddyn 10, nid oes digon o amser i athrawon baratoi'r disgyblion ar gyfer yr etholiad.
- Nododd yr athrawes hefyd nad oedd CBAC wedi cynnwys yr Amcanion Asesu yn y papur arholiad fel ag yr oeddent wedi'i gytuno, ac o ganlyniad roedd disgyblion yn ddigalon iawn ar ôl yr arholiad.
- Nid oedd y ddogfen 'cwestiwn ac ateb' wedi'i chynnwys yn y papur arholiad chwaith, er bod CBAC wedi dweud y byddai. Mae'r athrawes wedi codi hyn gyda CBAC, ac yn eu hymateb maent yn nodi na fydd y ddogfen gael ei chynnwys yn y papur

arholiad, yn unol â phynciau eraill.

- Mae athrawon eraill ar yr ynys wedi cwyno am yr Amcanion Asesu, ac mae'r cwynion hyn wedi cael eu hanfon ymlaen i CBAC.
- Amlygwyd na fydd cynnwys y cwrs yn newid, ond mae CBAC wedi gwrandao ar y pryderon a godwyd yn gysylltiedig â'r Asesiadau Di-arholiad.
- Mae CBAC eisoes wedi rhannu'r cwestiynau ar gyfer Blwyddyn 10 ac 11 y flwyddyn nesaf er mwyn rhoi mwy o amser i athrawon baratoi.
- Bydd CBAC yn cadw at yr un 2 bwnc ar gyfer Blwyddyn 10 ac 11 ac felly bydd modd aildddefnyddio deunyddiau'r flwyddyn nesaf.
- Mae CBAC wedi derbyn bod angen darparu deunyddiau ynghynt.
- Cynhelir cwrs wyneb yn wyneb yn Llandudno ar 23 Tachwedd, sy'n gwrthdaro â bwriad yr athrawes i gyflwyno'r Asesiadau Di-arholiad ym mis Medi.

Adroddodd yr Ymgynghorydd CGM y bydd y Rhwydwaith Penaethiaid Adrannau Uwchradd yn cwrdd Ddydd Iau, 24 Medi i drafod yr Asesiadau Di-arholiad yn bennaf.

Mynegwyd pryder nad yw ysgolion yn derbyn adnoddau arholiad yn ddigon buan. Cytunodd y CYS i godi'r mater gyda CBAC. Yn gysylltiedig â mater arall, gofynnodd yr athrawes i'r CYS ymyrryd a gofyn i CBAC dynnu'r wybodaeth ar y wefan ynglŷn â'r Amcanion Asesu.

PENDERFYNWYD: -

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**
- **Bod Clerc y CYS yn ysgrifennu at CBAC i fynegi pryder y CYS nad yw'r adnoddau dysgu ar gael i ysgolion yn gynt.**
- **Bod Clerc y CYS yn gofyn i CBAC dynnu ei amcanion asesu oddi ar y wefan ar unwaith.**

4. DYSGU IDDEWIAETH – ADNODDAU AR GYFER YSGOLION

Rhoddodd Anna Silver, Swyddog Addysg Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain gyflwyniad PowerPoint i'r CYS. Dywedodd bod adnoddau bellach ar gael yn y Gymraeg i gefnogi gwersi CGM.

Rhoddodd y Swyddog Addysg grynodedig o'r modd y mae'r Bwrdd yn cynrychioli cymunedau Iddewig amrywiol y DU mewn ffordd ddemocrataidd.

Cyfeiriwyd at yr Arddangosfa Profiad Bywyd teithiol, sy'n cynnwys 18 baner ac 8 bocs o arteffactau a ddefnyddir gan y Bwrdd i ddysgu am Iddewiaeth. Mae'n arddangosfa yn rhyngweithiol, ac mae'r plant yn cael cyfle i afael mewn arteffactau yn gysylltiedig â'r bywyd Iddewig.

Mae'r baneri'n cynrychioli amrywiaeth ar draws y gymuned Iddewig ac maent yn cynnwys arddangosfeydd gweledol a daearyddol i chwalu rhagfarnau. Maent yn cyfeirio at y prif wyliau Iddewig, digwyddiadau cylch bywyd a thraddodiadau. Mae baner newydd wedi cael ei chyflwyno'n ddiweddar sy'n trafod hanes yr Iddewon ym Mhrydain a Gwrth-semitiaeth.

Eglurodd y Swyddog Addysg bod yr arddangosfa'n cael ei chadw yn Synagog Caerdydd a bod modd i ysgolion ei benthylu. Mae adnoddau ar-lein ar fywyd Iddewig

hefyd ar gael. Maent yn addas i blant uwchradd.

Diolchodd y Cadeirydd i Anna Silver am ei chyflwyniad diddorol.

PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

5. GWELLA YSGOLION AC YNYS MÔN

Rhoddodd yr Arweinydd Strategol, Sector Cynradd gyflwyniad PowerPoint a oedd y rhoi trosolwg o'r Canllawiau Gwella Ysgolion Cenedlaethol. Adroddodd bod y canllawiau wedi cael eu cyhoeddi ar ffurf drafft yn 2022.

Cyfeiriodd yr Arweinydd Strategol at nodau ac amcanion y canllawiau, i godi ymwybyddiaeth y CYS ynglyn â'u cynnwys a'r disgwyliadau ar ysgolion. Eglurodd bod gan y Gwasanaeth Dysgu strwythur newydd, a bod cyfrifoldebau'r Cyngor wedi newid.

Nodwyd nad yw ysgolion bellach yn canolbwyntio ar gategoreiddio a data a chanlyniadau. Rôl y Gwasanaeth Dysgu yw cefnogi ysgolion i ofyn cwestiynau a'u hannog i gydweithio i ddatblygu cymunedau dysgu; herio a chefnogi ei gilydd; gwella ymhellach, i sicrhau'r addysg gorau posib i ddisgyblion. O ran atebolrwydd, mae'r Awdurdod yn gweithredu drwy ymyrryd yn gynnar.

Nodwyd mai gweledigaeth y Cyngor yw datblygu cydweithio, dysgu proffesiynol, a bod yn gyfrifol am lwyddiant pob plentyn. Rhaid cael diwylliant effeithiol lle gall ysgolion ddysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd, lle mae arweinyddiaeth yn cael ei rannu a lle mae ymarferwyr yn cael eu cefnogi i ddatblygu. Mae'r Gwasanaeth Dysgu'n gweithredu fel hwylusydd strategol ar gyfer datblygu ar bob lefel.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

6. DIWEDDARIAD AR Y CYMORTH SYDD AR GAEL I YSGOLION

Rhoddodd yr Ymgynghorydd CGM Annibynnol gyflwyniad i Benaethiaid yn ystod diwrnod HMS ar 20 Mawrth 2026, i'w hatgoffa bod y Maes Lafur Cytûn yn statudol a bod rhaid ei adolygu pob 5 mlynedd ac y bydd rhaid gwneud hynny yn 2027. Adroddodd bod rhaid i ysgolion fod yn ymwybodol bod mymryn o newid wedi bod i'r ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â CGM a bod y pwnc mewn gwahanol gategori i bynciau eraill yn y Cwricwlwm i Gymru.

Adroddodd yr Ymgynghorydd CGM ei fod wedi darparu sesiwn hyfforddi penodol i Benaethiaid CGM, lle rhoddwyd pwyslais ar gael gafael ar ddeunyddiau ar gyfer ysgolion yn ôl y galw.

Nodwyd bod y Rhwydwaith Penaethiaid Adrannau CGM Uwchradd wedi cwrdd yn ddiweddar a bod y cyfarfod hwnnw wedi bod yn llwyddiannus iawn. Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Medi a bydd cyfle i ysgolion drafod yr Asesiadau Di-arholiad a'r TGAU newydd.

Amlygwyd pwysigrwydd hwyluso deialog broffesiynol rhwng athrawon CGM, gan fod CGM yn bwnc penodol. Mae'r Awdurdod Lleol yn cefnogi ysgolion drwy annog athrawon CGM ym mhob ysgol i gydweithio gyda'i gilydd a gyda phobl gyffelyb ar y

cwricwlwm. Nodwyd bod yr holl athrawon CGM ar Ynys Môn yn athrawon CGM proffesiynol.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

7. DIWEDDARIADAU ESTYN

- a) Rhoddodd yr Ymgynghorydd CGM grynodedb o ganfyddiadau Estyn ar y maes CGM. Nododd bod adroddiadau Estyn yn hepgor pynciau os nad oes unrhyw bryderon ac felly nid oes llawer iawn o sylwadau'n cael eu gwneud ynglyn â CGM, addoli ar y cyd a materion ysbrydol mewn ysgolion. Mae Estyn yn adrodd ar faterion dim ond pan fo pryder.
- b) Nodwyd bod Estyn wedi crynhoi ei ganfyddiadau ar y Dyniaethau yn ei Adroddiad Blynnyddol ar gyfer 2024-25. Adroddodd yr Ymgynghorydd CGM bod adroddiad Estyn yn adroddiad beirniadol iawn, a'i fod yn amlygu 'canlyniadau anrhagweladwy' deddfwriaeth. Nododd bod popeth a ragwelwyd yn sgil dysgu'r Dyniaethau fel pwnc trawsgwricwlaidd wedi digwydd. Mae Daearyddiaeth a CGM wedi colli eu llais, ac mae Estyn wedi adrodd bod Hanes yn cael llawer iawn o sylw. Mynegodd yr Ymgynghorydd CGM bryder ynglyn â diffyg arbenigedd yn yr uwchradd, a bod rhai athrawon yn dysgu CGM er nad ydynt yn arbenigo yn y pwnc.

Nodwyd bod Estyn wedi cyhoeddi 14 o gwestiynau i Adrannau Dyniaethau fyfyrion arnynt. Adroddodd yr Ymgynghorydd CGM bod y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (NAPfRVE) wedi ail ysgrifennu'r cwestiynau hyn o safbwynt CGM, ac y dylai ysgolion fod yn ymwybodol o hynny. Mae cwestiynau manylach hefyd wedi cael eu paratoi ar gyfer ysgolion i helpu athrawon gynllunio'n effeithiol ar gyfer y cwricwlwm CGM a hynny'n gysylltiedig â geirfa, pynciau, agweddau dysgu allweddol, edrych ar gynnydd o ran CGM ayb.

PENDERFYNWYD: -

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Bod Clerc y CYS yn rhannu cwestiynau hunanwerthuso NAPfRVE gydag ysgolion.**

8. UNRHYW FATERION PENODOL I'R CYS

Dim

9. CYFARFOD NESAF:

Cynhelir cyfarfod nesaf y CYS ar 8 Hydref 2026 am 2:00 pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 3:25 pm

**Y CYNGHORYDD NON DAFYDD
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank



Cofnodion Cyfarfod Haf CCYSAGauC
 Dydd Mercher 24 Mehefin 2026
 9.30 – 12:30
 Lletywyd gan CYS Conwy, rhithwir trwy Zoom
 Cadeiriwyd gan Edward Evans
 35 yn bresennol, yn cynnwys y gwestai
 arbennig, Anna Silver, a chynrychiolwyr CYSau
 ledled Cymru

Yn bresennol

Ynys Môn Phil Lord (PL) Blaenau Gwent Kathy Riddick (KR) Pen-y-bont ar Ogwr Edward Evans (EE) Alice Parry (AP) Caerffili Eifion ap Llwyd Dafydd (ELD) Caerdydd Corinne Hainsworth (CH) Sir Gaerfyrddin Jennifer Harding- Richards (JHR) Ceredigion Anne Uruska (AU) Rhianydd James (RJ) Conwy Phil Lord (PL) Dr Lowry Brown (LB) Roger Boon (RB) Josh Andrews (JA)	Sir Ddinbych Phil Lord (PL) Jennie Downes (JD) Sir y Fflint Lyn Oakes (LO) Gwynedd Merthyr Tudful Donna Graves (DG) Sir Fynwy Louise Brown (LB) Rachel Buckler (RB) Clare Werrett (CW) Castell-nedd Port Talbot Rachel Samuel (RS) Casnewydd Powys John Mitson (JM) Caroline Davies (CD)	Rhondda Cynon Taf Donna Graves (DG) Alison Lee Torfaen Hayley Jones (HJ) Bro Morganwg Kathy Riddick (KR) Wrecsam Tania ap Siôn (TS) Libby Jones (LJ) CSC Donna Graves (DG) EAS Hayley Jones (HJ) PYCC Phil Lord (PL) Donna Graves (DG) EFTRE Phil Lord (PL) REC Kathy Riddick (KR)	Arsylwyr CBAC Chris Owens (CO) ESTYN Michelle Gosney (MG) Eglwys yng Nghymru Lisa Taylor (LT) Gwasanaeth Addysg Gatholig CLILC Elin Stock (ES) Cymwysterau Cymru (CC) Oliver Stacey (OS) Gwesteion arbennig: Anna Silver (AS) - Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain Cyfieithydd: Sioned Jones (SJ) Rhys Evans Sarah McErlaine Y Cyngorydd Sue Shotter Maddie Saraireh
---	---	---	---

Cofnodion y cyfarfod

1. Cyflwyniad a Chroeso

Agorodd y Cadeirydd, Edward Evans, y cyfarfod a chyflwynodd Dr. Lowri Brown, Prif Swyddog Addysg, a groesawodd y mynychwyr. Pwysleisiodd bwysigrwydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) o ansawdd uchel ledled Cymru a thynnodd sylw at y gwaith cydweithredol a wneir ar y meysydd llafur cytunedig ar gyfer CGM ledled Cymru. Myfyriodd Roger Boon, Cadeirydd ymadawol CYSAG Conwy, ar ei gyfnod yn y rôl a thynnodd sylw at ystod o faterion o ddiffyg athrawon arbenigol CGM cymwys yng Nghymru i'r diffyg canfyddedig o gynnwys CGM penodol yn y cynnig maes llafur newydd. Yna cafwyd munud o fyfrio tawel dan arweiniad Edward Evans.

2. Myfyrdod Tawel

Cynigiodd Edward Evans fyfyrdodau ar wneud newidiadau cadarnhaol yn y byd a phwysigrwydd gweithredu unigol. Yn ogystal, rhannodd Ddatganiad Cyffredinol dros Heddwch.

3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Vicky Barlow a'r Cynghorydd Nia Jenkins.

4. Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf (19 Mawrth 2026)

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 19 Mawrth ar ôl iddynt gael eu paratoi gan ddefnyddio DA gan RS a LJ.

Penderfyniad: Cymeradwywyd y cofnodion yn dilyn gwelliannau.

GWEITHREDU: EE i lofnodi'r cofnodion a LJ i ffeilio

5. Materion yn Codi

Dim materion ar wahân i'r eitemau oedd eisoes ar yr agenda.

6. Cyflwyniad PYCCGM

Cyflwynydd: Anna Silver - Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain

Cyflwynodd AS adnoddau newydd yn y Gymraeg ar gyfer addysgu Iddewiaeth, yn gynnwys Arddangosfa Profiad Byw Iddewig wedi'i diweddarau gyda 18 baner ac 8 blwch arteffactau sydd bellach ar gael yn y Gymraeg, a fersiwn Gymraeg o wefan Byw Iddewig Ar-lein. Gellir cludo'r arddangosfa o gwmpas Cymru ac mae ar hyn o bryd wedi'i storio yn Synagog Unedig Caerdydd, tra bydd yr adnodd ar-lein yn gwbl weithredol erbyn mis Medi. Cynigiodd AS hefyd rannu rhestr adnoddau gynhwysfawr a gwahodd athrawon i ymuno â sesiynau Holi ac Ateb misol i gael cefnogaeth gydag addysgu Iddewiaeth.

Derbyniodd y cyflwyniad adborth cadarnhaol gan y mynychwyr gan gynnwys RS a ganmolodd ansawdd y cynnwys Gymraeg. Gofynnodd sawl cyfranogwr i gael eu hychwanegu at restr bostio AS a mynegwyd diddordeb mewn ymweliadau ysgol. Cynigiodd AL gydlyn ymweliadau ysgol ledled Cymru yn cynnwys ymweliadau sydd ar y gweill yn ardaloedd Caerdydd, Casnewydd, a Chastell-nedd Port Talbot. Trafododd y grŵp hyrwyddo cynrychiolaeth Iddewig ar bwyllgorau

CYSAG a digwyddiadau posibl yn y dyfodol, gan gynnwys cynlluniau AL i drefnu diwrnod ymweliad athrawon yn y synagog.

GWEITHREDU:

- AS i anfon ei chyflwyniad at Libby i'w ddosbarthu ymlaen.
- LJ i ddosbarthu dolen y cyflwyniad ac adnoddau cysylltiedig i bob clerc CYSAG, yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer dilyniant.
- AL i barhau i gydlynw a chynnig ymweliadau ysgol gan ddefnyddio'r Arddangosfa Profiad Byw Iddewig a hysbysu'r rhai â diddordeb am ddigwyddiadau yn y dyfodol i athrawon.

7. Materion Llywodraeth Cymru

Darparwyd diweddariadau Llywodraeth Cymru gan LJ. Roeddent yn gysylltiedig â'r cyfarfod diweddar ar 17-6-26

Pobl yn bresennol:

- CCYSAGauC – Edward Evans, Rachel Samuel, Tania ap Sion a Libby Jones
- Llywodraeth Cymru – Claire Habberfield ac Angharad Thomas-Richards

Mae gan Angharad rôl drosfwaol yn y Llywodraeth - Pennaeth Dros Dro'r Dyniaethau ac mae hi'n gyn athrawes Hanes gydag Addysg Grefyddol fel ail bwnc. Mae Sam Clutton bellach wedi gadael tîm y Dyniaethau.

Roedd y pwyntiau trafod yn cynnwys:

- Canllawiau CGM i Rieni a Gofalwyr – diweddariad
- Adolygiad Canllawiau Addoli ar y Cyd – diweddariad
- Canfyddiadau o Adroddiad Thema Drawsbynciol Estyn ar y Dyniaethau
- Argyfwng recriwtio a chadw CGM / Dyniaethau a materion cysylltiedig
- Llwyth gwaith athrawon yn sgil y TGAU newydd
- Adolygiad o Adroddiadau Blynyddol CYSAG
- Prosiect Llais yr Athro

Roedd y penderfyniadau'n cynnwys: Cydweithwyr LLC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Swyddogion CCYSGAGauC ar bob pwynt trafod a threfnu dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol ymlaen llaw yn ogystal ag ymestyn y cynnig o gyfarfodydd ad hoc pan fo angen.

GWEITHREDU:

- LJ i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â LLC i gael diweddariadau pellach

8. Adroddiad Blynyddol Estyn – Thema drawsbynciol y Dyniaethau

Cyflwyniad gan Michelle Gosney o Estyn ar Adroddiad Blynyddol Thema Drawsbynciol yr Adroddiad Blynyddol ar y Dyniaethau.

Cyflwynodd MG ganfyddiadau o'r adolygiad cwricwlwm oedd yn tynnu sylw at wendidau mewn addysgu'r dyniaethau, yn enwedig o ran cynllunio, cydbwysedd pynciau, a datblygu sgiliau penodol ar draws gwahanol gyfnodau addysgol. Dangosodd yr adolygiad, er bod ysgolion

cynradd yn gyffredinol yn cydnabod gwerth trawsgwricwlaidd, eu bod yn aml yn brin o ddatblygiad mewn sgiliau disgyblaethau, ac mae hanes yn tueddu i ddominyddu ar draul daearyddiaeth a CGM. Mewn ysgolion uwchradd, mae'r dull integredig o ymdrin â'r dyniaethau weithiau'n brin o gydlyniant, ac mae tuedd gynyddol o staff yn addysgu y tu allan i'w harbenigedd pwnc oherwydd problemau recriwtio a modelau cwricwlwm. Roedd pryderon allweddol yn cynnwys diffyg dysgu proffesiynol i athrawon, amser cwricwlwm cyfyngedig ar gyfer CCM a thangynrychiolaeth grwpiau Du, Asiaidd, a lleiafrifoedd ethnig yng nghynnwys y cwricwlwm. Nodwyd arweinyddiaeth effeithiol fel ffactor pendant mewn darpariaeth gref yn y dyniaethau, gydag arweinwyr angen sicrhau digon o amser cynllunio cwricwlwm, buddsoddi mewn dysgu proffesiynol staff, a defnyddio tystiolaeth uniongyrchol i werthuso effaith. Datgelodd y drafodaeth, er bod gan ysgolion hyblygrwydd i ddewis rhwng dulliau addysgu'r dyniaethau neu ddulliau addysgu penodol i bynciau, bod y canfyddiadau cyfredol yn adlewyrchu canlyniadau disgwylidig ailgynllunio'r cwricwlwm, yn enwedig o ran heriau addysgu anarbenigol a datblygu gwybodaeth am bynciau.

GWEITHREDU:

- MG i anfon cyflwyniad Adroddiad Thematig Estyn ar y Dyniaethau at LJ i'w ddosbarthu i CYSAGau a phobl berthnasol.

9. Prosiect Llais yr Athro (Ymchwil a gefnogir gan CCYSAGauC)

Rhoddodd TaS ddiweddariad ar adroddiad Prosiect Llais yr Athro, gan egluro, er bod yr adroddiad llawn wedi'i ohirio oherwydd y broses o ddadansoddi data ansoddol (sy'n cymryd llawer o amser) fod cyflwyniad PowerPoint byrrach eisoes ar gael drwy GYSAGau lleol. Cyfeiriodd TaS at weminar CCYSAGauC (25 Mawrth 2026) a gyflwynodd ganfyddiadau cychwynnol o'r arolwg cyn yr adroddiad terfynol.

GWEITHREDU:

- Anfon y PowerPoint troslais byrrach ar gyfer Prosiect Llais yr Athro yn uniongyrchol at LB (ac unrhyw rai perthnasol eraill) i'w ddefnyddio cyn cyfarfodydd sydd i ddod.

10. Cynhadledd Undydd Ar y Cyd AULRE a CCYSAGauC yng Nghaerdydd

Adroddodd Rachel ar gynlluniau i AULRE a CCYSAGauC gynnal Cynhadledd Undydd ar y cyd yng Nghaerdydd ddechrau mis Medi. Fodd bynnag, roedd hi'n dal i aros am gadarnhad o'r lleoliad gan Mark Bryant.

GWEITHREDU:

- RS i ofyn i Mark Bryant gadarnhau lleoliad diwrnod cynhadledd ar y cyd AULRE / CCYSAGauC a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau drwy'r CYSAGau pan dderbynnir gwybodaeth.

11. Cymwysterau

Rhoddodd OS ddiweddariadau ar gymwysterau sy'n berthnasol i CGM, gan gynnwys y cymwysterau Sgiliau ar gyfer Bywyd a Gwaith yn Nhon Tri, sy'n cael eu datblygu gan bum corff dyfarnu gyda manylebau i'w cyhoeddi ym mis Medi. Trafododd adborth gan y grŵp ymarferwyr astudiaethau crefyddol TGAU ynghylch heriau cynnwys, materion asesu, ac enillion cyflym posibl megis ymestyn dyddiadau cau cyflwyno Asesiadau Di-arholiad a gwneud briffiau'n ddilys am ddwy flynedd. Hefyd, mynegodd y grŵp bryderon ynghylch diffyg cymwysterau ar gyfer

myfyrwyr uchel eu cyflawniad a diffyg opsiwn cwrs byr, gydag OS yn cytuno i fwydo'r rhain yn ôl i'r tîm gweithredol.

GWEITHREDU:

- OS i wirio a chadarnhau a all ysgolion gymysgu a chyfateb unedau o wahanol gyrff dyfarnu ar gyfer y cymwysterau Sgiliau ar gyfer Bywyd a Gwaith newydd, ac adrodd yn ôl i LJ.
- OS i fynd â'r pryderon a godwyd ynghylch effaith cymwysterau newydd ar ysgolion heb athrawon arbenigol yn ôl i Gymwysterau Cymru.
- OS i fynd â'r pryderon a godwyd ynghylch capio'r cymwysterau Sgiliau ar gyfer Bywyd Lefel 2 newydd a'r diffyg darpariaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n cyflawni'n uwch yn absenoldeb cwrs byr TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol yn ôl i Gymwysterau Cymru.

12. Adroddiad y Pwyllgor Gwaith (13 Mai 2026)

Roedd y cyfarfod yn cynnwys nifer o ddiweddariadau a thrafodaethau. Mae'r rhan fwyaf o'r eitemau oedd ar yr agenda ar yr agenda hwn, yn cynnwys cyfarfodydd Llywodraeth Cymru a'r diweddariadau arferol. Rhannwyd gohebiaeth yn eitem 14.

Cyhoeddodd EE na fydd CYSAGau yn bodoli mwyach o fis Medi 2026, ac ar ôl trafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith, ond gwnaed y penderfyniad i gadw'r enw CCYSAGauC. Cymeradwyodd Rachel Buckler ac eraill y penderfyniad ar ôl trafodaeth drylwyr.

13. Diweddariadau

Cyflwynwyd diweddariadau gan PYCCGM, CBAC, REC, EFTRE, a materion / ymholiadau lleol ar ffurf ysgrifenedig am y tro cyntaf, gyda'r cyfranogwyr yn cytuno'n gyffredinol bod y dull hwn yn fuddiol. Roedd gwybodaeth ychwanegol yn cynnwys:

- PYCCGM:

Trafododd y cyfarfod diweddar sawl pwnc allweddol yn ymwneud â CGM a phroblemau cyfoes. Cyflwynodd PL ddeunyddiau a grëwyd gan aelodau PYCCGM gan ddefnyddio adnoddau Estyn o adroddiad Thema Drawsbynciol y Dyniaethau a oedd yn trafod Hunanwerthuso a gwella ysgolion. Roedd yr adnoddau hyn wedi'u hailysgrifennu o safbwynt CGM a'u rhannu gyda phob Ymgynghorydd CGM i'w defnyddio gydag ysgolion lleol. Gwahoddodd PL y CYSAGau i gysylltu ag ef gydag unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

14. Gohebiaeth

- Meithrin Deialog Ryngddisgyblaethol Ddyfnach – Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Christchurch Caergaint

Rhoddodd Tania y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y prosiect "Meithrin Deialog Ryngddisgyblaethol Ddyfnach", gan egluro ei fod wedi'i addasu i gynnwys gweminarau wedi'u recordio yn hytrach nag ymgysylltiad personol ag athrawon, a'i bod hi wedi cyfrannu gweminar yn bersonol o'r enw "Cael eich Llunio gan Le, Gweddi, Byw gyda Natur a'r Cysegredig".

- Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) sy'n effeithio ar ysgolion yng Nghymru

Adroddodd TaS ar ohebiaeth â Phrifysgol Bangor ynghylch eu cais Rhyddid Gwybodaeth, a achosodd aflonyddwch i ysgolion, ac argymhellodd gloi'r ohebiaeth gyda nodyn i ddiolch.

Cyflwynodd Libby ganllawiau a grëwyd gan CCYSAGauC i helpu ymgynghorwyr CYSAG i fynd i'r afael â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth gan y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol, a oedd yn cynnwys eglurhad ar gwestiynau am addysg grefyddol a pholisïau ymwelwyr.

Cytunodd y grŵp i anfon llythyr diolch terfynol at Brifysgol Bangor i gau'r ohebiaeth honno a thrafod y posibilrwydd o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch rôl cyrff llywodraethu mewn ymatebion Rhyddid Gwybodaeth.

GWEITHREDU:

- TaS i ddrafftio ac anfon ymateb terfynol i Brifysgol Bangor, gan ddiolch iddynt am eu hymateb a gwneud sylwadau, i gau gohebiaeth ynghylch y cais Rhyddid Gwybodaeth.
- Ail-anfon y ddogfen ganllawiau Rhyddid Gwybodaeth at RB (Conwy) a Corinne Hainsworth (Caerdydd).
- Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru (neu gydlynw â swyddogion CCYSAGauC) i sicrhau bod yr adolygiad o gyrff llywodraethu yn cynnwys cyfeiriad penodol at ddyletswydd statudol llywodraethwyr ynghylch CGM ac ystyriaeth o gyfrifoldebau Rhyddid Gwybodaeth.

15. Unrhyw Fater Arall

Dim busnes arall

16. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Roedd y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 10 Tachwedd, a gynhelir gan Geredigion (ar-lein).

Crynodeb o'r Camau Gweithredu Allweddol

Camau gweithredu	Person
Llofnodi cofnodion a ffeilio	EE (WE) ac LJ (PG)
- Anfon y cyflwyniad i i'w ddosbarthu ymlaen. - Dosbarthu doleri y cyflwyniad ac adnoddau cysylltiedig i bob clerc CYSAG, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer dilyniant. - Parhau i gydlynw a chynnig ymweliadau ysgol gan ddefnyddio'r Arddangosfa Profiad Byw Iddewig a hysbysu'r rhai â diddordeb am ddigwyddiadau yn y dyfodol i athrawon.	AS(BoDBJ) LJ (PG) AL (RCT)
Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â LIC i gael y wybodaeth ddiweddaraf.	LJ (PG)
Anfon cyflwyniad Adroddiad Thematig Estyn ar y Dyniaethau i'w ddosbarthu i CYSAGau a phartïon perthnasol.	MG (E) ac LJ (PG)
Anfon y PowerPoint troslais byrrach ar Brosiect Llais yr Athro yn uniongyrchol at LB (ac unrhyw rai perthnasol eraill) i'w ddefnyddio cyn cyfarfodydd sydd i ddod.	LJ (PG)

Cysylltu â Mark Bryant i gadarnhau lleoliad cynhadledd undydd ar y cyd AULRE / CCYSAGauC a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau drwy'r CYSAGau pan dderbynnir gwybodaeth.	RS (PG)
- Gwirio a chadarnhau a all ysgolion gymysgu a chyfateb unedau o wahanol gyrff dyfarnu ar gyfer y cymwysterau Sgiliau ar gyfer Bywyd a Gwaith newydd, ac adrodd yn ôl i LJ. - Ewch yn ôl i Gymwysterau Cymru â'r pryderon a godwyd ynghylch effaith cymwysterau newydd ar ysgolion heb athrawon arbenigol. - Cyflwyno'r pryderon a godwyd ynghylch capio'r cymwysterau Sgiliau ar gyfer Bywyd Lefel 2 newydd a'r diffyg darpariaeth ar gyfer myfyrwyr â chyrhaeddiad uwch yn absenoldeb cwrs byr TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol i Gymwysterau Cymru.	OS (CC) OS (CC) OS (CC)
- Drafftio ac anfon ymateb terfynol i Brifysgol Bangor, gan ddiolch iddynt am eu hymateb a gwneud sylwadau, i gau gohebiaeth ynghylch y cais Rhyddid Gwybodaeth. - Ail-anfon y ddogfen ganllawiau Rhyddid Gwybodaeth at RB (Conwy) a Corinne Hainsworth (Caerdydd). - Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru (neu gydlynw â swyddogion CCYSAGauC) i sicrhau bod yr adolygiad o gyrff llywodraethu yn cynnwys cyfeiriad penodol at ddyletswydd statudol llywodraethwyr ynghylch CGM ac ystyriaeth o gyfrifoldebau Rhyddid Gwybodaeth.	TaS (PG) LJ (PG) KR (PG)

Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC (PG)

This page is intentionally left blank

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

ADRODDIAD BLYNYDDOL YNYS MÔN Medi 2025 - Awst 2026



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Aaron Evans**

CYNNWYS

ADRAN 1: CYFLWYNIAD

- 1.1 Cyflwyniad gan Gadeirydd y CYS(AG): Cynghorydd Non Dafydd

ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN

- 2.1 Swyddogaeth CYS(AG) Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
- 2.2 Y Maes Llafur Cytunedig
- 2.3 Pa mor dda yw safonau?
- 2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
- 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
- 2.6 Swyddogaeth CYS(AG) mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

ADRAN 3: ATODIADAU

- 3.1 Aelodaeth CYS(AG) Môn 2021-22
- 3.2 Cyfarfodydd CYS(AG) a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
- 3.3 Taflen gofnodi ar gyfer aelodau CYS(AG) sy'n mynychu sesiwn addoli ar y cyd mewn ysgol
- 3.4 CYS(Cynllun Datblygu CGM)

Swyddogaeth CYS(AG) Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol

Mae'r gofynion ar gyfer Allau mewn perthynas â Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a chynadleddau Maes Llafur Cytunedig yn cael eu hamlinellu yn y Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2022, Rhan 3 Adran 9 (3.1A) a Rhan 3 Adran 7 (7) ac Adran 390 o'r Education Reform Act 1996.

Mae CYS(AG) yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol, Crefydd, Gwerthoedd, Moeseg ac addoli ar y cyd, ac mae'n gyfrifol am sefydlu corff achlysurol, y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig, i gynhyrchu neu ystyried diwygiadau i'r Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol.

1.1 Crynodeb y Cadeirydd CYS(AG)

Mae'n bleser cyflwyno Adroddiad Blynyddol CYS(AG) Ynys Môn ar gyfer y cyfnod Medi 2025 i Awst 2026.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog wedi parhau i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol drwy gynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion sy'n ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg a darparu cefnogaeth mewn perthynas ag addoli ar y cyd yn ysgolion yr ynys. Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r CYS(AG), swyddogion y Cyngor a'n partneriaid addysgol am eu hymrwymiad a'u cyfraniad parhaus.

Mae'r flwyddyn wedi bod yn gyfnod pwysig wrth i ysgolion barhau i weithredu gofynion Cwricwlwm i Gymru. Mae aelodau'r CYS(AG) wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ar ddatblygiadau ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac wedi trafod sut y gallwn gefnogi ysgolion i ddarparu profiadau dysgu ystyrlon sy'n adlewyrchu amrywiaeth credoau, gwerthoedd a safbwyntiau yn ein cymdeithas gyfoes.

Fel Cadeirydd, rwy'n credu'n gryf fod dealltwriaeth, parch a goddefgarwch tuag at eraill yn werthoedd allweddol y dylai pob plentyn gael y cyfle i'w datblygu drwy eu haddysg. Yn y byd amrywiol sydd ohoni heddiw, mae'n bwysicach nag erioed fod ein pobl ifanc yn dysgu gwerthfawrogi safbwyntiau eraill wrth feithrin eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain.

Croesawn y cydweithio ag ysgolion, Estyn, Llywodraeth Cymru a'n hymgyngorydd proffesiynol, Phil Lord wrth sicrhau bod ysgolion Ynys Môn yn parhau i ddatblygu darpariaeth o safon uchel. Mae'r cyflwyniadau a dderbyniwyd gan ysgolion a'r wybodaeth a gafwyd o adroddiadau arolygu wedi cynnig mewnwelediad gwerthfawr i'r arferion effeithiol sydd i'w gweld ar draws yr ynys. Mae CYS(AG) hefyd wedi parhau i roi sylw i ddarpariaeth addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr. Mae'r gwaith hwn yn bwysig wrth helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu fel dinasyddion ystyriol, parchus a gweithgar.

Wrth edrych ymlaen, byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion wrth iddynt weithredu'r cwricwlwm newydd yn llawn, hyrwyddo arferion da, ac annog dealltwriaeth o grefyddau, credoau a gwerthoedd mewn ffordd gynhwysol sy'n adlewyrchu cymunedau Ynys Môn a Chymru gyfan. Ar ran CYS(AG) Ynys Môn, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith yn ystod y flwyddyn ac edrychaf ymlaen at barhau â'r cydweithio hwn yn y flwyddyn sydd i ddod.

Cynghorydd Non Dafydd

Cadeirydd CYS(AG) Ynys Môn

2.1 Swyddogaeth CYS(AG) Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol

Swyddogaeth CYS(AG) Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol

Nid yw swyddogaethau statudol CYS(AG) wedi newid. Mae CYS(AG) yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud ag Addysg Grefyddol, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac addoli ar y cyd. Mae hefyd yn ymgynnull y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn ôl yr angen.

Yn ystod 2025-26, parhaodd CYS(AG) i gefnogi ysgolion i ddeall natur fandadol CGM yn y Cwricwlwm i Gymru, a'r gwahaniaeth rhwng CGM ac AG ar gyfer dosbarthiadau arholi.

2.2 Y Maes Llafur Cytunedig

Mae CYS(AG)au Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' yn flaenorol fel Maes Llafur Cytunedig Gwynedd a Môn (2008). Oherwydd cyflwyniad graddol Cwricwlwm i Gymru, roedd y maes llafur hwn yn berthnasol i ddysgwyr blwyddyn 11 yn ystod 2025-26.

Cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ar y 15fed o Chwefror 2022 i adolygu'r maes llafur ac i argymhell maes llafur priodol i'r Awdurdod Lleol ei fabwysiadu.

Mabwysiadwyd y Maes Llafur Cytunedig ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i adlewyrchu canllawiau a ysgrifennwyd gan ymarferwyr ac arbenigwyr Addysg Grefyddol. Pwrpas y maes llafur yw darparu cefnogaeth ychwanegol ar sut y gellir addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym maes Dyniaethau. Mae Maes Llafur Cytunedig Ynys Môn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn seiliedig ar ganllaw Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r canllaw hwn yn pwysleisio bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan annatod o'r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau. Mae hefyd yn amlinellu cyfraniad unigryw a phenodol y pwnc i'r Cwricwlwm i Gymru.

Gellir cael mynediad at y canllaw isod:

- <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#canllawiau-ar-grefydd-gwerthoedd-a-moeseg>
- <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion-values-and-ethics-guidance>

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2025-26, yn unol â'r newidiadau i Gwricwlwm i Gymru 2022, cafodd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ei addysgu i bob plentyn ysgol gynradd a phob dysgwr ym mlwyddyn 7, 8, 9 a 10. Yn y flwyddyn academaidd 2025-26, parhaodd ysgolion uwchradd i addysgu'r cwricwlwm cyn-2022 (a elwir yn Cwricwlwm i Gymru 2008), gan gynnwys y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol, i ddisgyblion ym mlwyddyn 11.

Mae'r Maes Llafur Cytunedig, mewn cydymffurfiaid â gofynion y Cwricwlwm i Gymru 2022 newydd, yn ymwneud â'r pwnc dan y teitl 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg'. Mae'r Maes Llafur Cytunedig blaenorol, sy'n dal i fod yn gymwys ar gyfer ysgolion uwchradd am y rhesymau y disgrifir uchod, yn ymwneud â'r pwnc dan y teitl 'Addysg Grefyddol'. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig.

I lawrlwytho copi o'r Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol, ewch i:

- Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru - Hwb (gov.wales)
- National exemplar framework for religious education for 3 to 19-year-olds - Hwb (gov.wales)

2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYS(AG) yn monitro safonau drwy:

- Adroddiadau arolygu Estyn
- Crynodebau hunan-arfarnu ysgolion
- Cyflwyniadau gan ysgolion
- Deialog broffesiynol gydag athrawon
- Cyfarfodydd rhwydwaith penaethiaid adran CGM

Mae cyflwyniad wedi'i roi i X yn y X ynglŷn â'r disgwyliadau mewn perthynas â'r agwedd fandadol o CGM ac AG.

Derbyniodd un clwstwr cynradd gyflwyniad ynglŷn ag agweddau mandadol y cwricwlwm CGM a newidiadau i Faes Llafur Cytunedig Ynys Môn.

2.3.1 Adroddiadau hunan-arfarnu ysgolion

Ni adolygwyd unrhyw hunan-arfarniadau ysgolion eleni ym maes Addysg Grefyddol oherwydd y gydnabyddiaeth bod cymaint o newidiadau ar y gweill a bod ysgolion angen amser i baratoi am y newidiadau hynny. Ail-ddechreuodd Estyn arolygiadau ysgol yn nhymor yr haf 2022.

Argymhellion CYS(AG) i Awdurdod Addysg Môn

Sicrhau bod yr adnoddau a'r arfer da a gyflwynir i aelodau CYS(AG) yn cael eu dosbarthu i ysgolion ar draws Ynys Môn.

Bydd yr ALL yn ystyried sut y bydd yn monitro Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Dyniaethau.

2.3.2 Adroddiadau arholiadau ysgolion

Oherwydd arweiniad parhaus gan Lywodraeth Cymru ar y ffordd y cyflwynir data ac i osgoi cymharu ysgolion yn fympwyol, ni chyflwynwyd data arholiadau cymharol i aelodau ar gyfer arholiadau a wobrwyyd yn 2025/26 felly nid oedd modd iddynt ei drafod.

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o dueddiadau yn niferoedd y disgyblion sy'n dilyn Addysg Grefyddol TGAU.

Ysgol	Nifer y Disgyblion TGAU Haf 2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025	2026
YSTJ	25	14	17	21	31	40		
YUC	0	1	16	0	0	0		
YGLI	14	20	4	9	3	30		
YDH	33	31	51	24	52	33		
YUB	22	17	15	10	6	14		
Cyfansw	94	83	103	64	92	117	108	117

m								
---	--	--	--	--	--	--	--	--

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r tueddiadau yn niferoedd y disgyblion sy'n dilyn Lefel A Addysg Grefyddol.

Ysgol	Nifer y Disgyblion Lefel A 2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025	2026
YSTJ	13	8	8	7	2	8		
YUC	0	0	1	0	0	0		
YGLI	6	0	3	2	2	0		
YDH	8	10	2	12	11	5		
YUB	2	7	6	3	4	3		
Cyfanswm	29	25	20	24	19	16	25	12

Argymhellion CYS(AG) i Awdurdod Addysg Môn

Cefnogi ysgolion Môn i ddylunio cwricwlwm cyffrous a pherthnasol o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a fydd yn ei dro yn annog mwy o ddisgyblion i astudio'r pwnc ymhellach fel pwnc academaidd.

Mewn cydweithrediad â GwE, paratoi cydlynwyr Dyniaethau a fydd â'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer gofynion y Cwricwlwm i Gymru newydd ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Sicrhau bod gan ysgolion fynediad at ganllawiau ac arfer dda a fyddai'n gwella deilliannau addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

2.3.3 Adroddiadau Arolygu Estyn

Yn ystod y flwyddyn academaidd, cyflwynwyd adroddiadau arolygu 8 o ysgolion i aelodau CYS(AG). Arolygwyd yr ysgolion rhwng Ebrill 2025 a Mai 2026.

- Ysgol Gynradd Penysarn
- Ysgol Gynradd Llanfairpwll
- Ysgol Gynradd Santes Gwenfaen
- Ysgol Syr Thomas Jones
- Ysgol Gymuned Pentraeth
- Ysgol Llanfawr
- Ysgol Gymuned Fali
- Ysgol Uwchradd Caergybi
-

Nid oes unrhyw farn ar bynciau yn fframwaith arolygu presennol Estyn. Yn hytrach, mae aelodau'n derbyn gwybodaeth o'r adroddiadau sy'n ymwneud â sylwadau Estyn am ddarpariaeth ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (SMSC) ysgolion.

Nid oes disgwyl i arolygwyr adrodd a yw ysgol yn cyflawni'r ddyletswydd statudol i ddarparu gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd. Byddai disgwyl sylwad yn yr adroddiad pe bai ysgol yn cael ei chanfod yn groes i'w dyletswydd statudol.

Fel rhan o'r broses o fonitro, dadansoddir adroddiadau arolygu Estyn am sylwadau ar addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (SMSC). Mae'r rhain yn cael eu llunio a'u nodi gan CYS(AG).

Nid yw adroddiadau arolwg un o'r ysgolion yn cyfeirio at Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, addoli ar y cyd na'u datblygiad ysbrydol a moesegol. Nid oedd unrhyw feysydd datblygiad wedi'u cynnwys ar gyfer CGM, AG nac addoli ar y cyd.

2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

- Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i unrhyw faes llafur Cytunedig ar gyfer CGM adlewyrchu credoau crefyddol a chredoau anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol. Roedd cynnwys 'Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol' eisoes wedi'i gynnwys ym Maes Llafur Cytunedig Môn. Diwygiwyd cyfansoddiad CYS(AG) Ynys Môn i gynnwys aelodaeth o Ddyneiddwyr Prydain (BHA) fel rhan o Bwyllgor A. Mae aelod o'r BHA yn eistedd ar Bwyllgor A.
- Mae Phil Lord yn parhau i gael ei gomisiynu gan yr ALL fel ymgynghorydd proffesiynol i gefnogi gwaith CYS(AG) Môn.
- Croesawodd aelodau CYS(AG) Joanna Thomas, Cyfarwyddwr Addysg newydd Esgobaeth Eglwys yng Nghymru Bangor.
- Creodd CYS(AG) gynllun datblygu i gefnogi ei gefnogaeth strategol ar gyfer CGM ac addoli ar y cyd. Mae ganddo dair blaenoriaeth:
 - Blaenoriaeth 1: Datblygu effeithiolrwydd CYS(AG)
 - Blaenoriaeth 2: Monitro a chefnogi darpariaeth AG, CGM, yn ysgolion yr Awdurdod Lleol.
 - Blaenoriaeth 3: Monitro a chefnogi darpariaeth addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod Lleol.
- CYS(AG) drwy newyddlen ddigidol yn hysbysu ysgolion o wybodaeth sy'n bwysig i CGM ac addoli ar y cyd.
- Gwnaeth CYS(AG) gais am grant o Culham St Gabriels i gefnogi datblygiad deunyddiau addysgu yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru, ond roedd yn aflwyddiannus.
- Hysbyswyd aelodau CYS(AG) o gynhadledd haf yr European Forum of Teachers of RE (EFTRE) ym Mwdapest.
- Rhoddodd Luke Donnellan, cyfarwyddwr Understanding Humanism gyflwyniad am adnoddau defnyddiol i ysgolion.
- Mae ystod o ddeunyddiau i helpu ysgolion sy'n rheoli tynnu neu'r hawl i dynnu disgyblion o CGM wedi'u creu ac maent ar gael i ysgolion.
- Rhoddodd Anna Silver gyflwyniad am adnoddau i helpu ysgolion sy'n addysgu am Iddewiaeth.
- Bu i'r rhwydwaith CGM ysgolion uwchradd gyfarfod tair gwaith dros y flwyddyn.

2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Argymhellion CYS(AG) i Awdurdod Addysg Môn

Parhau i sicrhau bod yr holl athrawon yn ymwybodol o Faes Llafur Cytunedig newydd mis Medi 2022.

Cynnal adolygiad o gyfansoddiad y Pwyllgor CYS(AG) i ymateb i'r gofynion yn y Maes Llafur Cytunedig newydd.

Sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r 'hyn sy'n bwysig' yn y Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau a gwneud defnydd llawn o adnoddau HWB.

Parhau i hwyluso athrawon Addysg Grefyddol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ynys Môn ac

2.6 Swyddogaeth CYS(AG) mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r AALL weithio gyda'i GYS(AG) i gadw llygad ar y ddarpariaeth addoli ar y cyd ddyddiol ac i ystyried hefyd unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "benderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu bob un o ddisgyblion mewn ysgol pan ystyrir eu bod yn amhriodol.

- Mae aelodau CYS(AG) ac ysgolion Ynys Môn wedi derbyn dogfennau canllaw addoli ar y cyd yn flaenorol:
- Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYS(AG)au Cymru, Mehefin 2013)
- 'Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Hydref 2017)

Argymhellion CYS(AG) i Awdurdod Addysg Môn

Parhau ag ymweliadau drwy wahoddiad i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

ADRAN 3: ATODIADAU

3.1 Aelodaeth CYS(AG) Môn Medi 2024

Pwyllgor A

Undeb Bedyddwyr Cymru	Parch. Debra Stammers
Eglwys Bresbyteraidd Cymru	Elaine Green/Huw Owen
Eglwys yng Nghymru	Parch. Neil Ridings
Yr Eglwys Gatholig	Collette Owens
Undeb yr Annibynwyr	Gwag
Methodistiaid	Gwag
Cynrychiolydd Islam	Gwag
Tystion Jehofa	Gwag
Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain	Sarah Lloyd

Pwyllgor B (Cysylltiadau Athrawon)

Ysgol Santes Dwynwen	Manon Morris Williams
Ysgol Cybi	Owain Roberts
Ysgol Uwchradd Bodedern	Heledd Hearn
Ysgol Syr Thomas Jones	Mefys Jones-Edwards

Pwyllgor C (Cynghorwyr)

Cynghorydd	Non Dafydd (Cadeirydd)
Cynghorydd	Gwilym O Jones
Cynghorydd	Dylan Rees
Cynghorydd	Arfon Wyn
Cynghorydd	Keith Roberts (Gwanwyn a Haf)

Aelodau Cyfetholedig (di-bleidlais)

Rheinallt Thomas	Eglwysi Ynghyd Cymru
------------------	----------------------

Swyddogion

Mr Owen T Davies	Uwch Reolwr Cynradd, Addysg
Mr Phil Lord	Ymgynghorydd CGM
Shirley Cooke	Swyddog Pwyllgor

3.2 Cyfarfodydd CYS(AG) 2024-2025

Darperir crynodeb o drafodaethau cyfarfodydd CYS(AG) yn yr Adroddiad Blynnyddol. Yn ystod 2025-26, bu i CYS(AG) Môn gyfarfod yn rhithiol ac wyneb yn wyneb ar dri achlysur:

16 Hydref 2025
10 Chwefror 2026
9 Gorffennaf 2026

Gellir cyrchu'r holl agendâu a chofnodion ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn.

3.3: Taflen gofnodi ar gyfer aelodau CYS(AG) sy'n mynychu sesiwn addoli ar y cyd mewn ysgol

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

Mynychais sesiwn addoli ar y cyd mewn:	ysgol arbennig	☐
	ysgol	☐
	gynradd	☐
	ysgol	☐
	uwchradd	☐
Mynychais sesiwn addoli ar y cyd gan:	yr ysgol gyfan	☐
	dosbarth	☐
	cyfnod allweddol	☐
Yn cyfrannu i'r sesiwn addoli ar y cyd oedd:	y pennaeth	☐
	disgyblion	☐
	athro/athrawon	☐
	arweinydd crefyddol	☐
	lleol	☐
	rhiant/rhieni	☐
	llywodraethwyr	☐
Parhaodd y sesiwn addoli ar y cyd am:	lai na 5 munud	☐
	rhwng 5-10 munud	☐
	rhwng 10-15 munud	☐
	dros 15 munud.	☐
Thema'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: _____		

Clywais:

Stori Feiblaidd	☐	Cyflwyniad gan oedolyn	☐
Stori o grefydd arall	☐	Cyflwyniad gan ddisgyblion	☐
Stori foesol/gyfoes/hanesyddol addas	☐	Disgyblion yn myfyrio'n dawel mewn ymateb i ysgogiad	☐
Disgyblion yn gweddïo (yn unigol/ynghyd)	☐		☐
Emyn/carol Gristnogol	☐		☐
Cân addas	☐		☐

Tanlinellwch y tri datganiad gorau i ddisgrifio'r sesiwn addoli ar y cyd. Heddiw, roedd y sesiwn addoli ar y cyd yn:

- datblygu gallu dysgwyr i fyfyrar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain
- datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn
- trafod a hybu ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd, newid a marwolaeth
- datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol ac yn gymunedol fel ei gilydd
- hybu dealltwriaeth o greddoau a gwerthoedd pobl eraill naill ai yn lleol neu'n fyd-eang
- cynyddu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd
- meithrin y gallu dynol i wneud dewisiadau moesol er da neu er drwg
- hybu gwerthoedd, ystyr a phwrpas a rennir
- darparu cyfleoedd i rannu a myfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau 'hapus' a 'thrist' sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol a'r gymuned leol
- ategu dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach
- datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang.

3.4 CYSAG Ynys Môn – Cynllun Datblygu (2025-28)

Rôl y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (ar Addysg Grefyddol):

Prif rolau CYS(AG) yw:

- Cyngori'r Awdurdod Lleol ar faterion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac addoli ar y cyd, neu Ddatblygiad Ysbrydol a Moesol.
- Ystyried ceisiadau gan benaethiaid i gael rhyddhau eu hysgol o'r gofyniad statudol sy'n nodi bod rhaid i'w sesiynau addoli ar y cyd fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o natur gyffredinol Gristnogol (gelwir y fath geisiadau'n 'Ddyfarniadau').
- Gofyn i awdurdod lleol adolygu ei Faes Llafur Cytunedig.
- Monitro a chefnogi darpariaeth AG, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod Lleol.
- Rhoi cyngor ar y maes llafur AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cytunwyd arno gydag athrawon, gan gynnwys y dewis o ddeunyddiau athrawon.
- Cyngori'r Awdurdod Lleol ar ddarparu hyfforddiant i athrawon (mewn AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg).
- Ystyried cwynion am ddarpariaeth AG, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac addoli ar y cyd a wneir i'r Awdurdod Lleol.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith.

Cyfansoddiad y CYS(AG):

Mae gofynion statudol sefydlu CYS(AG) yn gofyn am lunio tri phwyllgor o aelodau:

- Grŵp A - Cynrychiolwyr byd-olygon crefyddol ac anghrefyddol
- Grŵp B - Cynrychiolwyr yr athrawon
- Grŵp C - Cynrychiolwyr y cyngor sir
- Mae hawl hefyd i gyfethol aelodau.

Blaenoriaethau ar gyfer 2025-26

Blaenoriaeth 1: Datblygu effeithiolrwydd CYS(AG)

Blaenoriaeth 2: Monitro a chefnogi darpariaeth AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ysgolion yr Awdurdod Lleol

Blaenoriaeth 3: Monitro a chefnogi darpariaeth addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod Lleol

Anglesey SAC(RE) – Development Plan (2025-28)

The Role of the Standing Advisory Council (for Religious Education):

The principal roles of SAC(RE) are:

- Advise the Local Authority on matters to do with Religious Education, Religion, Values and Ethics and collective worship, or Spiritual and Moral Development.
- Consider applications from headteachers that their school be released from the statutory requirements for Collective Worship to be wholly or mainly of a broadly Christian character (such applications are known as 'Determinations').
- Require a local authority to review its Agreed Syllabus.
- Monitor and support the provision of RE, RVE, collective worship and spiritual, moral, social and cultural development in the schools of the Local Authority.
- Give advice on teacher agreed syllabus RE and RVE including the choice of teacher materials.
- Advise the Local Authority on the provision of training for teachers (in RE and RVE).
- Considering complaints about the provision and delivery of RE, RVE and collective worship made to the Local Authority.
- To publish an annual report on its work.

The Composition of SAC(RE):

The statutory requirements for the setting up of SAC(RE)s require three committees of members:

- Group A - Representatives of religious and non-religious worldviews.
- Group B - Teacher representatives.
- Group C - County council representatives.
- There is also the right to co-opt members.

Priorities for 2025-26

Priority 1: To develop the effectiveness of SAC(RE)

Priority 2: Monitor and support the provision of RE, RVE, in the schools of the Local Authority.

Priority 3: Monitor and support the provision of collective worship and spiritual, moral, social and cultural development in the schools of the Local Authority.

Blaenoriaeth 1: Datblygu effeithiolrwydd CYS(AG)/
Priority 1: *To develop the effectiveness of SAC(RE)*

Rheswm am y Flaenoriaeth/Reason for Priority

- Mae gan CYS(AG) Ynys Môn nifer o swyddi gwag ar Bwyllgor A: Cynrychiolwyr Ffydd a Chred.
- Mae CYS(AG) Ynys Môn yn cynnig cymorth i ysgolion, ond faint mae'r ysgolion yn ei wybod am ein gwaith? Sut wyddom ni hyn?
- *Anglesey SAC(RE) has a number of vacancies on Committee A: Faith and Belief Representatives.*
- *Anglesey SAC(RE) provide support for schools, but how much do schools know about our work? How do we know?*

Meysydd i'w Datblygu/Areas to Develop

- 1) Sicrhau aelodaeth lawn ar dri phwyllgor CYS(AG).
 - 2) Codi proffil CYS(AG) yn yr Awdurdod Lleol.
- 1) To ensure a full complement of members on all three SAC(RE) Committees.*
2) To raise the profile of SAC(RE) amongst the Local Authority

Tudalen 27

Gweithgaredd	Person arweiniol	Amserlen	Cefnogaeth	Monitro	Meini Prawf Llwyddiant	Dyddiad cwblhau
Camau penodol i'w gweithredu	Pwy sy'n gyfrifol?	Dyddiad cychwyn?	Cefnogaeth sydd ei hangen?	Pwy fydd yn gwirio cynnydd a phryd?	Beth fydd wedi gwella? Sut fydd hyn yn effeithio ar ysgolion/penaethiaid?	
1. Sicrhau aelodaeth lawn ar dri phwyllgor CYS(AG).						
a. Adnabod a llenwi swyddi CYS(AG) gwag, yn arbennig ar gyfer cynrychiolwyr ffydd a chred.	ALI, Cadeirydd	Tymor y Gwanwyn	ALI, Cadeirydd i gysylltu â chynrychiolwyr posibl	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Bydd y CYS yn cael ei gynrychioli'n llawn ar draws y 3 phwyllgor	
2. Codi proffil CYS(AG) yn yr Awdurdod Lleol.						
a. Dosbarthu Adroddiad Blyneddol a Newyddlen CYS(AG) i ysgolion i godi ymwybyddiaeth.	ALI	Tymor yr Hydref	ALI i ddosbarthu'r adroddiad blyneddol a newyddlenni	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Bydd ysgolion a sefydliadau partner yn fwy ymwybodol o waith y CYS(AG)	Hydref 2025
b. Aelodau CYS(AG) a sefydliadau perthnasol i rannu cofnodion CYS(AG) a'r adroddiad	Holl aelodau CYS	Tymor y Gwanwyn a'r Haf	ALI i wneud adroddiad blyneddol a chofnodion y CYS ar gael	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Sefydliadau aelodaeth yn fwy ymwybodol o CYS	

	blynyddol ymysg eu haelodaeth.					
c.	Codi proffil CYS(AG) ymysg aelodau etholedig. Adroddiad blynyddol i'w ddosbarthu ymysg cynghorwyr ac aelodau cabinet. I'w gynnwys mewn cyfarfod Pwyllgor Sgriwtini Addysg.	Aelodau CYS etholedig	Tymor y Gwanwyn a'r Haf	ALL i ddosbarthu adroddiad blynyddol i holl aelodau etholedig yr ALL gan gynnwys aelodau cabinet	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Cyngor yn fwy ymwybodol o waith y CYS. Gall y cyngor ymofyn am wybodaeth ynghylch ysgolion, CGM, polisi, ymarfer gwrth-hiliol ac yn y blaen gan y CYS
d.	Datblygu'r rhwydwaith athrawon (TEAMS) i hyrwyddo gwaith y CYS(AG). ALL i gasglu rhestr o arweinwyr CGM yn holl ysgolion yr ALL.	ALL	Tymor yr Hydref	ALL i gysylltu ag ysgolion a chasglu gwybodaeth am arweinwyr CGM	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Athrawon yn rhan o rwydwaith TEAMS ac yn cael eu hysbysu o waith y CYS(AG)
e.	Yr adroddiad blynyddol i gynnwys deunyddiau ac adnoddau sy'n cefnogi athrawon i ddatblygu eu cwrwllwm CGM.	ALL	Tymor yr Haf	ALL i gyhoeddi'r adroddiad blynyddol	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn cael eu hysbysu o ddeunyddiau cefnogol ar gyfer CGM
f.	Datblygu newyddlen CYS(AG) dymhorol yn hysbysu ysgolion.	ALL	Tymhorol	ALL i ddosbarthu/cynnal yr erthyglau ar gyfer y newyddlen, gydag aelodau'n cyfrannu drwy drefnu ymweliadau ag ysgolion	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn cael eu hysbysu o ddeunyddiau cefnogol ar gyfer CGM

Blaenoriaeth 1: Monitro a chefnogi darpariaeth AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ysgolion yr Awdurdod Lleol.

Priority 2: Monitor and support the provision of RE, RVE, in the schools of the Local Authority.

Rheswm am y Flaenoriaeth/Reason for Priority

- Gweler 'Rôl y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (ar Addysg Grefyddol)'.
- Helpu ysgolion i fodloni gofynion statudol.
- *See 'The Role of the Standing Advisory Council (for Religious Education)'.*
- *To support schools to meet statutory requirements*

Meysydd i'w Datblygu/Areas to Develop

- 1) Cael dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ysgolion o ofynion Maes Llafur Cytunedig Môn.
 - 2) Cynorthwyo ysgolion i wella eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.
 - 3) Cefnogi ysgolion wrth iddynt werthuso eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg eu hunain.
- 1) Gain an understanding of schools' awareness of the requirements of the Anglesey Agreed Syllabus.*
- 2) To help schools improve their RVE provision.*
- 3) To support schools as they evaluate their own RVE provision.*

Gweithgaredd	Person arweiniol	Amserlen	Cefnogaeth	Monitro	Meini Prawf Llwyddiant	Dyddiad cwblhau
Camau penodol i'w gweithredu	Pwy sy'n gyfrifol?	Dyddiad cychwyn?	Cefnogaeth sydd ei hangen?	Pwy fydd yn gwirio cynnydd a phryd?	Beth fydd wedi gwella? Sut fydd hyn yn effeithio ar ysgolion/penaethiaid?	
1) Cael dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ysgolion o ofynion Maes Llafur Cytunedig Môn.						
a. Canllawiau'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer cyfarfod y dalgylchoedd.	ALI	Tymor y Gwanwyn	Sesiynau briffio yng nghyfarfod y penaethiaid	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Camau a rhaglen gymorth yn seiliedig ar yr adborth gan ysgolion	
b. Gofyn i arweinwyr 14-19 adrodd ar ddarpariaeth CGM yn eu hysgolion i gael gwell dealltwriaeth o'r nifer sy'n	ALI, PL	Tymor yr Hydref a'r Gwanwyn	Fformiwleiddio cwestiynau i arweinwyr eu defnyddio	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	CYS yn ymwybodol o ddarpariaeth CGM i rai 14-19 oed yn ysgolion yr ALI	

dilyn y pwnc a datblygiad y pwnc.						
2) Cynorthwyo ysgolion i wella eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.						
a. Datblygu rhwydwaith athrawon yn cynnwys cydlynwyr CGM i rannu dysgu ac arfer gorau.	ALI, PL	Parhaus	ALI i ofyn am fanylion cyswllt yr holl arweinwyr CGM yn ysgolion yr ALI	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Rhestr o ysgolion wedi'i chreu a'i chynnwys ar TEAMS CGM Ynys Môn	
b. Lledaenu deunyddiau cefnogol megis polisi CGM enghreifftiol, cefnogaeth i reoli'r broses o ddiddymu'r hawl i dynnu allan.	ALI, PL	Tymor yr Hydref Parhaus	Deunyddiau i fod ar gael ar y rhwydwaith TEAMS	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Ysgolion gyda mynediad at ddeunyddiau cefnogol	
c. Ymgynghori ag ysgolion ar yr hyn yr hoffent o ran cefnogaeth CGM.	ALI	Tymor yr Hydref	ALI i gael amser mewn sesiynau briffio athrawon	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Rhaglen o gefnogaeth i'w datblygu	
d. Newyddlen dymhorol, h.y. i gynnwys ymchwil ar lythrennedd crefyddol beirniadol, etc.	PL	Tymhorol	ALI i ledaenu newyddlen	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Ysgolion yn cael eu hysbysu'n rheolaidd	
e. Cyfarfod rheolaidd i arweinwyr CGM rwydweithio.	ALI	Tymhorol ?	ALI i hysbysebu	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Ysgolion yn cefnogi ei gilydd ac yn rhannu arfer da	
f. Ymgynghorydd CGM i ddarparu cefnogaeth unigol i ysgolion ar gais yr ALI.	ALI a PL	Parhaus	ALI i ofyn yn ôl yr angen	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Cynnydd ysgolion unigol	
3) Cefnogi ysgolion wrth iddynt werthuso eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg eu hunain.						

4)						
a. Creu meini prawf arfarnu ar gyfer darpariaeth CGM.	ALI a PL	Tymor yr Haf	ALI i drefnu a hwyluso	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Deunyddiau wedi'u creu a'u dosbarthu	

Blaenoriaeth 3: Monitro a chefnogi darpariaeth addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod Lleol.

Priority 3: Monitor and support the provision of collective worship and spiritual, moral, social and cultural development in the schools of the Local Authority.

Rheswm am y Flaenoriaeth/Reason for Priority

- Gweler 'Rôl y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (ar Addysg Grefyddol)'.
- Mae gofyn i ysgolion ddarparu Gweithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd.
- *See 'The Role of the Standing Advisory Council (for Religious Education)'.*
- *There is a requirement on schools to provide a Daily Act of Collective Worship.*

Meysydd i'w Datblygu/Areas to Develop

- 1) Cael dealltwriaeth o ymwybyddiaeth yr ysgolion o'r disgwyliadau mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd.
 - 2) Helpu ysgolion i wella eu darpariaeth Addoli ar y Cyd.
 - 3) Helpu ysgolion i werthuso eu darpariaeth Addoli ar y Cyd eu hunain.
- 1) Gain an understanding of schools' awareness of the expectations regarding Collective Worship.*
- 2) To help schools improve their Collective Worship provision.*
- 3) To support schools as they evaluate their own Daily Act of Collective Worship.*

Gweithgaredd	Person arweiniol	Amserlen	Cefnogaeth	Monitro	Meini Prawf Llwyddiant	Dyddiad cwblhau
Camau penodol i'w gweithredu	Pwy sy'n gyfrifol?	Dyddiad cychwyn?	Cefnogaeth sydd ei hangen?	Pwy fydd yn gwirio cynnydd a phryd?	Beth fydd wedi gwella? Sut fydd hyn yn effeithio ar ysgolion/penaethiaid?	
1) Cael dealltwriaeth o ymwybyddiaeth yr ysgolion o'r disgwyliadau mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd.						
a. Ymgynghori ag athrawon i ddeall eu hymwybyddiaeth o'r gofynion mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd.	ALI	Tymor y Gwanwyn	Defnydd o sesiynau briffio penaethiaid	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Ymwybyddiaeth gynyddol yr ALI o anghenion ysgolion.	
2) Helpu ysgolion i wella eu darpariaeth Addoli ar y Cyd.						
a. Ychwanegu adran ar Addoli ar y Cyd yn adnoddau rhwydwaith TEAMS CGM.	ALI	Tymor y Gwanwyn	Ysgolion i gael eu hysbysu o'r deunyddiau sydd ar gael ar TEAMS CGM Ynys Môn	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)		

b. Lledaenu deunyddiau cefnogol megis Polisi Addoli ar y Cyd enghreifftiol.	ALI	Tymor yr Hydref Parhaus	Deunyddiau i fod ar gael ar y rhwydwaith TEAMS	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Ysgolion gyda mynediad at ddeunyddiau cefnogol.	
3. Helpu ysgolion i werthuso eu Gweithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd eu hunain.						
a. Datblygu a rhannu rhestr wirio i ysgolion hunan-arfarnu a gwella Addoli ar y Cyd a datblygiad perthnasol.	ALI a PL	Tymor yr Haf	PL i hwyluso a darparu cefnogaeth broffesiynol.	Bydd unrhyw gynnydd yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd y CYS(AG)	Creu deunyddiau canllaw a chefnogol i ysgolion.	

This page is intentionally left blank

Annwyl Dîm CBAC,

Rwy'n ysgrifennu i geisio cadarnhad ffurfiol ynghylch y ddarpariaeth ieithyddol ar gyfer yr adnoddau a'r deunyddiau cefnogi a gynhyrchir ar gyfer ysgolion.

Fel y gwyddoch, mae ysgolion ledled Cymru yn dibynnu'n sylweddol ar ddeunyddiau CBAC i sicrhau cysondeb, tegwch a darpariaeth o ansawdd uchel. Er mwyn cefnogi hyn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r canlynol:

- Y bydd yr holl adnoddau a ddarperir i ysgolion—boed yn ganllawiau statudol, enghreifftiau, deunyddiau addysgu, cefnogaeth asesu neu ddysgu proffesiynol—yn cael eu darparu'n ddwyieithog.
- Y bydd yr holl ddeunyddiau o'r fath yn cael eu rhyddhau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd, gan sicrhau tegwch o ran mynediad i ymarferwyr a dysgwyr.

Byddai sicrwydd clir ar y mater hwn yn hynod ddefnyddiol i awdurdodau lleol, ysgolion ac arweinwyr cwrwclwm wrth iddynt gynllunio darpariaeth a chyfleu disgwyliadau.

Diolch ymlaen llaw am eich sylw i'r cais hwn. Edrychaf ymlaen at eich cadarnhad.

Yn gywir,

Owen T Davies (Uwch Rheolwr Sector Gynradd)

Dear WJEC Team,

I am writing to seek formal confirmation regarding the language provision of resources and support materials produced for schools.

As you know, schools across Wales rely heavily on WJEC materials to ensure consistency, equity and high-quality delivery. To support this, I would be grateful if you could confirm the following:

- That all resources provided for schools—whether statutory guidance, exemplars, teaching materials, assessment support or professional learning—will be made available bilingually.
- That all such materials will be released in Welsh and English at the same time, ensuring parity of access for practitioners and learners.

Clear assurance on this matter would be extremely helpful for local authorities, schools and curriculum leads as they plan provision and communicate expectations.

Thank you in advance for your attention to this request. I look forward to your confirmation.

Yours sincerely,

Owen T Davies (Senior Manager Primary Sector)

This page is intentionally left blank